Crynodeb Annhechnegol o'r Atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol - Hydref 2017

1. Cyhoeddwyd Gorchmynion Drafft ar gyfer cynllun arfaethedig Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2016, ynghyd â Datganiad Amgylcheddol ac adroddiadau cysylltiedig. Ers hynny, mae atodiadau i'r Datganiad Amgylcheddol wedi cael eu cyhoeddi, yn y lle cyntaf, i gywiro nifer o gamgymeriadau ffeithiol, anghysondebau a hepgoriadau yn ymwneud â gwybodaeth sylfaenol yn bennaf, ac yna i ddarparu gwybodaeth ychwanegol ynglŷn ag arolygon parhaus ac arolygon newydd yn ymwneud â materion ecolegol yn bennaf, ac i asesu newidiadau i ddyluniad y cynllun.

2. Mae'r Atodiad hwn, sef Atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol – Hydref 2017, yn ymwneud â thri mater:

   a) mân newidiadau dylunio arfaethedig i'r gwaith amddiffyn pont wrth Junction Cut, a mân newidiadau i osodiad arfaethedig y safle wedi'i adleoli yn Nociau Casnewydd;

   b) goblygiadau amgylcheddol penderfyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddileu tollau ar draws Croesfannau Hafren erbyn diwedd 2018; ac

   c) adrodd ar arolygon ecolegol ychwanegol a gynhaliwyd yn ystod yr haf 2017 o fewn Dociau Casnewydd i gefnogi'r gwaith adleoli arfaethedig.

3. Dylid darllen yr atodiad hwn a'r Atodiadau blaenorol i'r Datganiad Amgylcheddol gyda'i gilydd ac ochr yn ochr â Datganiad Amgylcheddol Mawrth 2016 sydd wedi'i gyhoeddi. Nid yw unrhyw ran o'r data ychwanegol a ddarperir yn yr Atodiad i'r Datganiad Amgylchedd – Hydref 2017 yn newid asesiad a chasgliadau Datganiad Amgylcheddol Mawrth 2016 yn sylweddol.

4. Ym mis Gorffennaf 2017, cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru y byddai tollau Croesfannau Hafren yn cael eu dileu erbyn diwedd 2018. O ganlyniad, rhagwelir y bydd llifoedd traffig yr opsiwn Gwneud y Lleiaf Posibl a'r llifoedd traffig a ragwelir yn y dyfodol yn 2022 a 2037 ar y rhwydwaith priffyrdd yn newid.

5. Mae asesiad ansoddol o'r newidiadau traffig mewn perthynas â sŵn wedi amlygu newid o ran sŵn nad yw'n fwy na 0.8 dB (yn ogystal â'r newidiadau a ragfynegir ar gyfer y Cynllun cyhoeddedig). O ganlyniad, gallai newid bach a adroddir o ran sŵn newid yr asesiad cyffredinol o Dderbynyddion sy'n Sensitif i Sŵn ychydig bach, gan greu effaith fwy arwyddocaol, neu olygu bod mwy neu lai o adeiladau'n profi effaith arwyddocaol. Fodd bynnag, ni fyddai newidiadau o'r fath yn newid unrhyw effaith arwyddocaol a amlygwyd gan fwy nag un lefel arwyddocâd (e.e. o gymedrol i ddibwys, neu fel arall).

6. Mae asesiad ansoddol o'r newidiadau traffig mewn perthynas ag ansawdd aer wedi amlygu y bydd y cynnydd mwyaf o ran crynodiadau NO_2 a PM_{10} a ragfynegir ar gyfer derbynyddion iechyd dynol yn berthnasol i ran newydd yr M4 (hyd at 5 %). Rhagfynegir y bydd y crynodiadau hyn ymhell islaw eu safonau ansawdd aer unigol. O ran derbynyddion ecolegol, mae'n debygol y byddai'r effaith fuddiol gymedrol ar SoDdGA Langstone-Llanmartin Meadows yn aros yr un fath, heblaw y byddai'r gostyngiad mewn crynodiadau NO_x yn debygol o gynyddu ychydig. Byddai'r cynnydd a ragfynegir mewn NO_x yn SoDdGA Llansanffraid yn arwain at gynnydd bach yn y tebygolrwydd o groesi trothwy'r safon ar gyfer gwarchod llystyfiant mewn rhan fach

iawn o'r safle dynodedig. Fodd bynnag, byddai cyfradd gysylltiedig gwaddodi nitrogen maethol wrth ffin y SoDdGA yn is na'r llwyth critigol is ar gyfer y safle, i'r graddau y byddai'r asesiad o'r effaith yn aros ar lefel 'nad yw'n arwyddocaol'.

7. Mae asesiad ansoddol o'r newidiadau traffig mewn perthynas â charbon wedi cael ei gynnal, sydd wedi amlygu mwy o fudd o ran lleihau carbon nag yr adroddwyd yn wreiddiol yn Natganiad Amgylcheddol Mawrth 2016. Cynhaliwyd asesiad ansoddol hefyd o'r cynnydd tebygol yn y defnydd o gerbydau trydan yn sgil rhoi'r gorau i werthu ceir â motorau tanio mewnol yn 2040. Fodd bynnag, o'i ystyried ar ei ben ei hun, bydd mwy o ddefnydd o gerbydau trydan yn gohirio'r dyddiad ar gyfer niwtraliaeth garbon y mae'n rhaid ei ystyried yng nghyd-destun y budd cyffredinol i'r rhwydwaith trafnidiaeth ehangach. Er hynny, ystyrir bod y dyddiad ar gyfer niwtraliaeth garbon a adroddwyd yn wreiddiol yn geidwadol o hyd.

8. Cynhaliwyd arolygon ecolegol i wirio am bresenoldeb moch daear, dyfrgwn, llygod dŵr, ymlusgiaid ac infertebratau ar dir y bwriedir ei ddefnyddio ar gyfer y safle wedi'i adleoli o fewn Dociau Casnewydd. Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw dystiolaeth o foch daear, dyfrgwn na llygod dŵr.

9. Daethpwyd o hyd i boblogaeth dda o ymlusgiaid (nadroedd y gwair) yn ne-orllewin ardal yr arolwg.

10. Dangosodd yr arolwg infertebratau fod y cyfansoddiad infertebratau a oedd yn bresennol yn debyg i lawer o safleoedd tir llwyd ôl-ddiwydiannol a bod potensial sylweddol i gynnal ffawna infertebratau helaeth. Mae hyn yn cyd-fynd â'r asesiad cyffredinol o effaith y cynllun ar infertebratau ar dir diwydiannol o ganlyniad i golli cynefin, a ddaeth i'r casgliad y byddai'r effaith yn cael niwed cymedrol i fawr yn y tymor canolig, sy'n arwyddocaol yn nhermau Asesu Effeithiau Amgylcheddol. Dylid nodi, fodd bynnag, bod cynefinoedd o'r math hwn yn gymharol fyrhoedlog eu natur, gyda rhychwant oes o oddeutu 15-20 mlynedd cyn i laswelltau garw a phrysgoed ddominyddu a budd y safle o ran infertebratau leihau.

11. Mae copïau o'r Gorchmynion wedi'u haddasu, y Crynodeb hwn o'r Atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol, a gwybodaeth ategol ar gael i'w gweld yn ystod oriau swyddfa arferol yn y lleoliadau isod.

- Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Adran yr Economi a'r Seilwaith, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.
- Cyngor Dinas Casnewydd, y Ganolfan Ddinesig, Heol Godfrey, Casnewydd, NP20 4UR.
- Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA.
- Cyngor Sir Fynwy, Tŷ Arloesedd, Parc Busnes Cymru 1, Magwyr, Sir Fynwy, NP26 3DG.
- Llyfrgell Ganolog Casnewydd, Sgwâr John Frost, Casnewydd, NP20 1PA.

12. Gellir cael copïau ychwanegol o'r Crynodeb o'r Atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol yn rhad ac am ddim gan Lywodraeth Cymru yng Nghaerdydd yn y cyfeiriad canlynol.

Y Gangen Orchmynion
Trafnidiaeth
Adran yr Economi a'r Seilwaith
Llywodraeth Cymru

Parc Cathays, Caerdydd
CF10 3NQ.

13. Mae'r Atodiad i'r Datganiad Amgylchedd a'r Crynodeb ohono (ynghyd â Datganiad Amgylcheddol llawn Mawrth 2016, Atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol – Medi 2016, Atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol – Rhagfyr 2016, Atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol – Mawrth 2017, Atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol – Ebrill 2017 ac Atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol – Awst 2017) ar gael i'w gweld a'u lawrlwytho o wefan Llywodraeth Cymru:

http://www.wales.gov.uk/m4newport

14. Gellir prynu copïau electronig o Ddatganiad Amgylcheddol Mawrth 2016 a'i atodiadau (ar DVD) gan Lywodraeth Cymru yn y cyfeiriad uchod am £20 (gan gynnwys postio a phecynnu).

15. Mae copïau papur o Ddatganiad Amgylcheddol Mawrth 2016 a'i Atodiadau ar gael hefyd o'r cyfeiriad uchod, er y codir tâl gweinyddol am gost copïo (rhoddir pris ar gais).